



Ysgol Pentreuchaf

154. Polisi Asesu Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd

(I'w ddefnyddio ochr yn ochr gyda'r **Polisiau Asesu Ffurfiannol a Chrynodol**)

Mae'r atodiad hwn yn cefnogi polisiau asesu presenol yr ysgol gyda sylwadau yn dangos y gwelliannau y mae'r ysgol wedi'u gwneud i gefnogi gofynion asesu'r FFLIRh.

Rhesymeg

Mae asesu wrth wraidd y broses o hyrwyddo dysgu plant. Mae'n darparu fframwaith y gellir gosod amcanion addysgol oddi mewn iddo, a lle gellir mynegi a monitro cynnydd dysgwyr. Dylai hyn gael ei wneud mewn partneriaeth â'r dysgwyr.

Dylai asesu gael ei gynnwys yn systematig mewn strategaethau addysgu er mwyn canfod unrhyw broblemau ac olrhain cynnydd. Mae'n helpu'r ysgol i gryfhau dysgu ar draws y cwricwlwm ac yn helpu athrawon i wella eu sgiliau a'u barnau. Mae ein gweithdrefnau asesu yn rhydd o ragfarn, stereoteipio a chyffredinoli o ran rhyw, dosbarth, hil ac anabled.

Egwyddorion

- cydnabod cyflawniadau dysgwyr;
- llywio cynllunio, addysgu a datblygu'r cwricwlwm i'r dyfodol;
- hysbysu rhieni/gofalwyr a'r gymuned ehangach o gyflawniadau dysgwyr;
- darparu gwybodaeth er mwyn sicrhau cynnydd pan fydd y dysgwr yn newid ysgol neu grŵp blwyddyn
- cydymffurfio â gofynion statudol.

Mathau o asesiad Asesu ar gyfer dysgu (ffurfiannol):

Dyma'r asesu a wneir gan athrawon yn ffurfiol ac yn anffurfiol yn ystod uned o waith. Mae canlyniadau asesu ffurfiannol yn cael effaith uniongyrchol ar y deunyddiau a strategaethau addysgu a ddefnyddir yn syth ar ôl yr asesiad. Caiff y canlyniadau a sylwadau eu cadw mewn llyfrau cofnod athrawon eu hunain, neu lyfrau'r plant eu hunain.

Asesiad o ddysgu (crynodol):

Mae hyn yn digwydd ar gyfnodau penodol o'r flwyddyn academaidd, megis ar ddiwedd uned o waith. Mae profion crynodol yn helpu athrawon i wneud asesiadau 'ffit gorau' cyfnodau allweddol, ac maent hefyd yn ddefnyddiol wrth benderfynu ar y lefel pwnc cyffredinol ar gyfer cardiau cofnodi dysgwyr.

Diagnostig:

Gall pob asesiad ddarparu tystiolaeth ddiagnostig; fodd bynnag, gall offer asesu penodol fod yn arbennig o ddefnyddiol wrth ddarparu data mwy manwl e.e. dadansoddi camddarllen, ayb. Mae rhagor o wybodaeth ar gael gan SENCO yr ysgol. Mae profion asesu Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol yn darparu cryn dipyn o ddeunydd diagnostig ac mae angen i athrawon wneud defnydd priodol o hyn.

Asesiad yn y Cyfnod Sylfaen

Wrth ddod i mewn i'r ysgol, bydd dysgwyr yn cael eu hasesu. Defnyddir canlyniadau i lywio gwaith cynllunio, gosod targedau a chynorthwyo adnabyddiaeth gynnar o anghenion arbennig. Bydd dysgwyr yn cael eu hasesu bob hanner tymor er mwyn sicrhau bod camau nesaf dysgu yn cael eu cynllunio'n briodol er mwyn helpu'r dysgwyr i wneud cynnydd.

Cofnodion a chadw cofnodion

Mae athrawon yn defnyddio cofnodion i adolygu cynnydd dysgwyr, gosod targedau priodol ar gyfer y dyfodol ac i ffurfio sail i adroddiadau.

Caiff cofnodion eu cadw mewn nifer o ffyrdd. Mae'r rhain yn cynnwys:

- cynlluniau athrawon;
- gwaith plant;
- nodiadau athrawon e.e. canlyniadau arwyddocaol;
- llyfrau marcio athrawon;
- canlyniadau asesiadau yn y system Rheolwr Asesu'r ysgol;
- data gwaelodlin cenedlaethol;
- portffolios pynciol;
- Adroddiad Cryno Disgyblion ar ddiwedd y flwyddyn.

Er mwyn crynhoi'r holl dystiolaeth o gyflawniad, rydym yn cadw cofnod o gyrhaeddiad pob dysgwr yn y pynciau cwricwlwm cenedlaethol drwy ddefnyddio system *Incerts*.

Byddwn yn defnyddio data y profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol i dracio cynnydd ac i dargedu grwpiau o blant

Wrth ddod i mewn i'r ysgol, bydd y dysgwyr yn cael eu hasesu yn unol ag arweiniad gan yr ALL.

Llythrennedd a rhifedd.

Caiff ei asesu gan yr athro/athrawes yn dymhorol ac mae'n trosglwyddo gyda'r dysgwr i'r dosbarth nesaf, neu'n symud gyda hwy i gam nesaf eu haddysg. Rydym yn defnyddio system *Incerts* wneud hyn.

Safoni/cymedroli

Mae'r broses o safoni yn rhan hanfodol o'r system asesu. Mae hyn yn cynnwys safoni llythrennedd a rhifedd. Mae athrawon yn cymryd rhan yn y broses safoni i sicrhau cytundeb ar feini prawf lefelau yn y ffyrdd canlynol:

- gyda chydweithwyr yn yr ysgol;
- gyda chydweithwyr o ysgolion eraill o fewn y clwstwr;
- trwy ddefnyddio deunyddiau enghreifftiol.

Bydd portffolios ysgol o waith wedi'i safoni yn cael eu cadw gan arweinwyr cwricwlwm.

Adroddiadau

Mae adroddiadau'n hyrwyddo a darparu:

- perthnasoedd cartref/ysgol da;
- gwybodaeth i rieni/gofalwyr;
- cyfle i drafod gyda rhieni/gofalwyr;
- mewn rhai achosion, gwybodaeth gydag asiantaethau allanol;
- targedau i'r dysgwyr.

Mae adroddiad ysgrifenedig ar gyfer pob dysgwr yn cael ei anfon at rieni/gofalwyr, unwaith y flwyddyn, ar ddiwedd tymor yr haf. Mae adroddiadau'n amlinellu cynnydd y dysgwr ym mhynciau craidd a sylfaen y cwricwlwm cenedlaethol. Bydd yr athro/athrawes yn gwneud sylwadau ar gyrhaeddiad y dysgwr o ran disgwyliadau sy'n gysylltiedig ag oedran cenedlaethol yn y pynciau craidd. Hefyd awgrymir cryfderau'r dysgwyr a'r meysydd ar gyfer datblygu llythrennedd a rhifedd. I ddysgwyr ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2, bydd gwybodaeth ychwanegol yn cael ei daprau hefyd, gan gynnwys manylion o Ganlyniadau'r Cyfnod Sylfaen a lefelau'r cwricwlwm cenedlaethol.

Mewnosodwch sylw am gynnydd mewn llythrennedd a rhifedd.

Sylw am safoni llythrennedd a rhifedd.

Angen adrodd ar y FfLIRh

Gwahoddir rhieni/gofalwyr i fynychu cyfweiliadau ffurfiol gyda'r athro yn ystod tymor yr hydref a'r gwanwyn. Pe bai'r angen yn codi, mae croeso i rieni/gofalwyr drafod cynnydd eu plentyn gyda'r athro/athrawes neu bennaeth ar adegau eraill.

Gosod targedau ac adolygu cynnydd.

Mae gosod targedau yn ran o raglan flynyddol o carfanu, cynllunio a gweithredu. Mae targedau penodol i'w gweld yn y Cynllun Datblygu Ysgol.

Rôl y cydlynnydd Asesu

Mae gosod targedau yn cyd-fynd â'r cylch blynyddol o adolygu, cynllunio a gweithredu gan ysgolion. Ceir datblygiadau penodol wrth osod targedau yn y Cynllun Datblygu Ysgol blynyddol.

Mae gan pob aelod o'r staff addysgu gyfrifoldeb am y gwaith o ddatblygu asesu, cofnodi ac adrodd yn yr ysgol.

Mae cyfrifoldebau'r cydlynnydd yn cynnwys:

- cyfrannu at y CDY drwy weithio gyda'r uwch dîm rheoli`;
- arwain datblygiad yr ysgol mewn gweithdrefnau asesu, cofnodi ac adrodd (ARR);
- cysylltu â'r cydlynwyr llythrennedd a rhifedd a phwnc o fewn yr ysgol;
- cysylltu â chydlynwyr asesu eraill o fewn y clwstwr;
- mynychu ac arwain HMS lle bo'n briodol;
- hysbysu llywodraethwyr.

Monitro a gwerthuso

Dylai gweithdrefnau asesu, cofnodi ac adrodd gael eu monitro yn flynyddol er mwyn iddynt barhau i fod yn ystyrllon ac yn hylaw. Gall polisiâu a gweithdrefnau newid yng ngoleuni unrhyw fentrau newydd a osodir ac rydym eisiau ymateb i unrhyw newidiadau o'r fath. Dylai'r polisi hwn gael ei adolygu yn unol â'r cylch ysgol.

Casgliad

Mae asesu yn broses barhaus dros gyfnod hir, yn gofyn am arsylwi dydd i ddydd, er nad yw hynny'n golygu cofnodi bob dydd. Wrth asesu'n ofalus byddwn yn sicrhau bod y ddarpariaeth yn addas i bob unigolyn, i ymestyn ei alluoedd, ei gymell, ei gynghori, ei arwain a'i gefnogi. Mae hunan asesu yn rhan bwysig o'r broses hon. Gweithred achlysurol, sydd a'i phwyslais ar yr arwyddocaol yn achos pob plentyn yw asesu a chofnodi.

Adolygir: Chwefror 2017

Arwyddwyd: _____, Cadeirydd y Llywodraethwyr

Dyddiad: _____